



Canllawiau i Ymgeiswyr: Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae Cronfa Gymunedol Cwmni Buddiant Cymunedol Pen y Cymoedd yn **Gyflwgr Cyflog Byw** achrededig – bydd ein cyflogeion a'n contractwyr bob amser yn cael eu talu ar y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol fesul awr.

Rydym hefyd yn **Gyllidwr Cyfeillgar i'r Cyflog Byw** gwirioneddol. Rydym yn cefnogi ac yn annog ymgeiswyr yn frwd i dalu eu cyflogeion ar lefelau'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Dylai ceisiadau am arian i gyflogi staff adlewyrchu costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym yn cydnabod y gallai fod rhesymau cryf pam efallai na fydd hyn weithiau'n bosibl i rai ymgeiswyr, ond byddwn bob amser yn gofyn i chi ddweud wrthym sut a pham mae'r lefelau cyflog wedi'u cyfrifo.

Efallai hefyd yr hoffech ystyried cael eich achredu gan y Sefydliad Cyflog Byw fel Cyflwgr Cyflog Byw – gallwch gael gwybod rhagor yma - www.livingwage.org.uk

Beth yw'r Cyflog Byw?

| 2019 | Yr Isafswm Cyflog Isafswm y Llywodraeth ar gyfer rhai dan 25 oed | Cyflog Byw Cenedlaethol Isafswm y Llywodraeth ar gyfer rhai dros 25 oed | Cyflog Byw Gwirioneddol Yn seiliedig ar yr hyn y mae angen ar bobl i fyw |
|--|--|--|---|
| Beth ydyw? | £7.70 (18 – 20: £6.15; o dan 18: £4.35) | £8.21 | £9 |
| A yw wedi'i nodi yn y gyfraith? | Ydy - crëwyd gan y Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 | Ydy – cyflwynwyd ym mis Ebrill 2016 | Nac ydyw - gwirfoddol |
| Grŵp oed a gwmpesir? | 21 - 24 | 25 a throsodd | 18 a throsodd |
| Sut y caiff ei gosod? | Cael ei thrafod – mae'r Comisiwn Cyflog Isel yn cynghori, mewnbyn gan fusnesau ac Undebau Llafur | % o enillion pwynt canol, 55% ar hyn o bryd, y nod yw cyrraedd 60% o enillion pwynt canol erbyn 2020 – ar hyn o bryd, y targed yw £9 | Cyfrifir gan y Sefydliad Cyflog Byw . Cyfrifir cyfraddau yn annibynnol yn ôl y costau byw, yn seiliedig ar fasedd o nwyddau a gwasanaethau cartref. |

Manteision y Cyflog Byw Gwirioneddol

Pan mae eu cyflogau yn isel, mae'n rhaid i bobl wario llai. Mae hyn yn anochel yn effeithio ar economïau lleol. Mae talu cyflog sydd wedi'i gyfrifo mewn perthynas â chost gwirioneddol nwyddau sylfaenol yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o allu eu prynu. Os gall pobl mewn cyflogaeth fforddio i fyw bywyd llawn, mae pawb yn elwa: mae pobl yn fwy tebygol o wario'n lleol – gan roi hwb i economïau lleol.

Gan weithio gyda'r Sefydliad Cyflog Byw, arolygodd Ysgol Busnes Caerdydd dros 800 o fusnesau Cyflog Byw gwirioneddol achrededig, yn cynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau). Dywedodd 86% fod yr achrediad Cyflog Byw wedi gwella enw da cyffredinol eu sefydliad fel cyflwgr. Nododd dros hanner y cyflwgrwyr fod y Cyflog Byw wedi gwella recriwtio a chadw staff, a bod cymhelliant y staff wedi cynyddu.

Sefydliad Cyflog Byw gwefan: www.livingwage.org.uk

DS: nid yw cydymffurfio â'r nodyn canllaw hwn yn gwarantu y bydd y cais yn llwyddiannus – arwydd ydyw yn unig o rai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.